PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

ADRODDIAD AROLYGU AC ADOLYGU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2012 / 13

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad ynglŷn â'r Adroddiad hwn at:

Dr. Lowri Angharad Hughes Ahronson

Cyfarwyddwr y Cynllun Iaith

Canolfan Bedwyr

lowri.ahronson@bangor.ac.uk

01248 383293

ADRAN 1

Sicrhau'r cyfleusterau i unigolion ymwneud â'r Brifysgol ar bob achlysur ac at bob pwrpas yn y Gymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis.

a. STAFFIO[1]

BLAENORIAETH	Cynnig gwasanaeth dwyieithog i staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfaoedd 'cyswllt cyntaf'.
Dangosydd Perfformiad	Nifer y swyddi gweinyddol[2] a hysbysebwyd ble nodwyd y Gymraeg fel sgil hanfodol a'r ganran a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg.
Targed	Hysbysebu pob swydd 'cyswllt cyntaf' fel swydd 'Cymraeg Hanfodol'.
Canlyniad	Hysbysebwyd 39 o swyddi ar lefel A1, A2 neu W1[3]. Penodwyd 35 (90%) o siaradwyr Cymraeg rhugl i'r swyddi hyn, 2 (5%) sy'n siarad ychydig o Gymraeg a 2 (5%) sydd ddim yn siarad Cymraeg. Hysbysebwyd 21 swydd ar lefel B1, B2 neu W2[4]. Penodwyd 5 (24%) sy'n siarad Cymraeg i'r swyddi hyn, 11 (52%) sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg a 5(24%) sydd ddim yn siarad Cymraeg.
Sylwadau	Mae'r ystadegau ar gyfer 2012/13 yn dangos fod y Brifysgol yn perfformio'n dda o safbwynt penodi siaradwyr Cymraeg, a hefyd bod y Cod Ymarfer diwygiedig ar benodi staff yn debygol o gryfhau'r canlyniadau ymhellach. Seilir y canfyddiad hwn ar y canlynol: • Yn y rhan helaethaf o achosion (90%), mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu penodi i swyddi Cymraeg yn Hanfodol.[5]

[1] Dyddiad cywain yr holl ystadegau staffio oedd Awst 2013 .

[2] At ddiben y dangosydd hwn, mae swyddi 'gweinyddol' yn cael ei diffinio fel swyddi 'clerigol' (graddfa 1-6). Mae hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a nodir yma, sef gwasanaeth dwyieithog mewn sefyllfaoedd cyswllt cyntaf; staff clerigol sydd fel arfer yn gyfrifol am y gwasanaeth hwn.

[3] Swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol'. Mae A1 ac A2 yn cyfeirio at y Cod Ymarfer gwreiddiol a W1 yn cyfeirio at y Cod Ymarfer diwygedig.

[4] Swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu'. Mae B1 a B2 yn cyfeirio at y Cod Ymarfer gwreiddiol a W2 yn cyfeirio at y Cod Ymarfer diwygedig.

[5] Penodwyd dau unigolyn nad oeddent yn siarad Cymraeg i un swydd a hysbysebwyd fel 'Cymraeg yn Hanfodol', dyma'r esboniad. Swydd derbynnydd yn y Ganolfan Addysg Rhyngwladol oedd hon a dim ond i fyfyrwyr yr oedd y swydd yn agored. Cytunwyd y byddai modd penodi rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg i'r swydd hon gan fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr adran yn gyffredinol yn golygu bod modd cynnig gwasanaeth Cymraeg (oherwydd lleoliad y swydd roedd hi'n anhebygol y byddai galw am

	• Mae'r ddwy swydd W1 (h.y. rhai a lenwyd o dan drefn y Cod Ymarfer diwygiedig) wedi'u llenwi gan siaradwyr Cymraeg. • Mae'r Brifysgol wedi cynyddu canran y swyddi clerigol sy'n cael eu hysbysebu fel rhai 'Cymraeg yn Hanfodol' (o 44% i 46%). O dan drefn y Cod Ymarfer diwygiedig, 'Cymraeg yn Hanfodol' oedd yr unig gategori a ddefnyddiwyd ar gyfer swyddi clerigol ac mae hyn yn unol ag amcanion y Brifysgol yn y cyd-destun hwn. • Unwaith eto, hyd yn oed pan gafodd swyddi clerigol eu hysbysebu ar lefel B, C neu D, llenwyd y mwyafrif helaeth ohonynt (80%) gan unigolion sy'n siarad Cymraeg neu'n siarad rhywfaint o Gymraeg. • Fel rhan o'r systemau sy'n cefnogi'r Cod Ymarfer diwygiedig, mae Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr a Chyfarwyddwr y Cynllun Iaith yn derbyn adroddiad wythnosol ar y swyddi newydd sydd yn y broses o gael eu cymeradwyo. Mae hyn yn rhoi cyfle i wirio lefelau iaith swyddi. Gan fod y tabl hwn yn edrych yn benodol ar allu'r sefydliad i gynnig gwasanaeth dwyieithog mewn sefyllfaoedd cyswllt cyntaf, dylid nodi bod ymarfer 'siopwr dirgel' wedi'i gynnal yn 2012/13 a bod y canlyniadau yn dangos yn glir bod y Brifysgol yn cynnig gwasanaeth dwyieithog effeithiol.

wasanaeth Cymraeg). O ran y ddwy swydd a lenwyd gan unigolyn a nododd eu bod yn siarad 'ychydig o Gymraeg', dyma'r esboniad. Swydd 1: Hysbysebwyd y swydd yn wreiddiol fel un Cymraeg yn Hanfodol. Gan nad oedd modd penodi, newidiwyd natur y swydd a'r elfen iaith, felly ni ddylai fod wedi'i chodio fel swydd 'Cymraeg yn Hanfodol' mewn gwirionedd. Swydd 2: Aseswyd safon iaith y sawl a benodwyd yn y cyfweliad a theimlwyd bod eu safon iaith Gymraeg yn ddigon da i wneud y swydd. Yr unigolyn ei hun sydd wedi asesu eu lefel iaith fel 'siarad ychydig o Gymraeg'.

b. STAFFIO

BLAENORIAETH	Cynyddu'r nifer o staff ar draws y lefelau swyddi clerigol ac academaidd gysylltiedig sy'n gallu gweithredu'n ddwyieithog er mwyn datblygu ethos dwyieithog y sefydliad.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff gweinyddol sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gradd y swydd.
Targed	Dangos cynnydd blynyddol (yn ôl canran) yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith staff clerigol ac academaidd gysylltiedig.
Canlyniad	Gweler Ystadegau Staffio Tabl 1, 2, 2a, 3 a 4. Mae canran y staff ALC a chanran y staff clerigol sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl wedi aros yr un fath yn 2012/13 ag yr oedd o yn 2011/12 (50% staff ALC a 62% staff clerigol). Mae canran o'r rhai sy'n siarad ychydig o Gymraeg wedi cynyddu o'r hyn yr oedd o yn 2011/12 (cynnydd o 6% staff ALC a 3% staff clerigol).
Sylwadau	O ran datblygu ethos dwyieithog y sefydliad a sicrhau gweinyddiaeth ddwyieithog effeithiol, mae arwyddion cadarnhaol yn y data ar gyfer 2012/13: • Mae'r data ar gyfer holl staff y Brifysgol yn dangos fod canran y rhai sy'n dysgu Cymraeg wedi cynyddu 5%. • Ymhlith penodiadau newydd, mae'r patrwm o ran gallu ieithyddol staff ALC a staff clerigol wedi gwella'n fawr. Mae 52% o benodiadau newydd ALC yn siarad Cymraeg yn rhugl (28% yn 2011/12) tra bod 27% o benodiadau newydd ALC yn siarad ychydig o Gymraeg (5% yn 2011/12). Mae nifer y penodiadau wedi aros yn eithaf cyson: 22 aelod newydd yn 11/12 a 19 aelod newydd yn 12/13 • O ran staff clerigol, mae 59% o benodiadau newydd yn siarad Cymraeg (52% yn 2011/12) a 19% o benodiadau clerigol newydd yn siarad rhywfaint o Gymraeg (11% yn 2011/12). Eto, mae nifer y penodiadau yn weddol gyson: 75 aelod newydd yn 11/12 a 81 aelod newydd yn 12/13. • O edrych ar broffil oedran staff newydd (tabl 2a), mae'r ffaith fod 7 allan o'r 10 aelod staff ALC newydd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y band oed 26-35 yn awgrymu bod potensial i feithrin to newydd o staff a fydd yn gallu cynnal dwyieithrwydd y Brifysgol yn yr hirdymor. • Ymhlith penaethiaid adrannau (tabl 3) mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 2% (o 26% i 28%) a chanran y rhai sy'n dysgu Cymraeg wedi cynyddu 11% (o 32% i 43%).

	Y mae, fodd bynnag, wybodaeth fwy siomedig yn y data: • Mae canran siaradwyr Cymraeg rhugl ymhlith holl staff y Brifysgol wedi gostwng 1% (o 44% i 43%), er bod y niferoedd wedi codi a'r canran sy'n siarad ychydig o Gymraeg wedi codi.

c. STAFFIO

BLAENORIAETH	Sicrhau bod sefyllfa staffio'r Brifysgol yn cynnal parhad a datblygiad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff academaidd sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gradd y swydd.
Targed	Dangos cynnydd blynyddol (yn ôl canran) yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith staff academaidd.
Canlyniad	Gweler Ystadegau Staffio Tabl 1, 2, 5 a 5a. Yn gyffredinol, mae'r canran o siaradwyr Cymraeg rhugl ymhlith staff academaidd wedi gostwng 2% (o 30% i 28%). Mae canran y rhai sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg wedi codi 5% (o 20% i 25%). Ymhlith penodiadau newydd, mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi codi 1% (o 31% i 32%) tra bod canran y rhai sy'n siarad ychydig o Gymraeg wedi codi 14% (o 5% i 19%). O ran y canrannau fesul gradd swydd, mae'r ystadegau yn dangos fod canran y siaradwyr Cymraeg yn lleihau wrth fynd o raddfa G007 i raddfa ATHRO.
Sylwadau	• Mae'n galonogol gweld cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhugl ymhlith penodiadau academaidd newydd. • Mae 7 o'r 25 staff academaidd newydd sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hariannu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae cyfraniad y Coleg tuag at gynnal parhad a datblygiad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg felly yn amlwg eto eleni. • Mae 9 o'r 25 staff academaidd newydd sy'n siarad Cymraeg yn y band oedran 56-65 a 66+. Mae'r tabl yn dangos mai penodiadau tymor byr yw canran uchel o'r staff academaidd newydd sy'n siarad Cymraeg ac yn bwynt pwysig wrth ystyried pa mor gadarnhaol yw'r data ynglŷn â gallu staff academaidd i siarad Cymraeg mewn gwirionedd. • Mae'r lleihad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg wrth fynd i fyny'r graddfeydd swydd yn adlewyrchu patrwm y llynedd. Nid yw hyn yn syndod gan mai proses hirdymor yw gwyrdroi'r tueddiad hwn. Unwaith eto yn 12/13

	cynhaliodd yr uned Datblygu Staff gwrs arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Brifysgol felly yn parhau i adolygu'r modd y mae'n datblygu staff academaidd sy'n siarad Cymraeg.

ch. STAFFIO

BLAENORIAETH	Sicrhau bod sefyllfa staffio'r Brifysgol yn sicrhau parhad a datblygiad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff academaidd sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fesul Ysgol. Nifer a chanran y staff academaidd sy'n medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fesul Ysgol.[6]
Targed	Sicrhau bod y Brifysgol yn rhoi cyfle i staff gynnal a datblygu eu sgiliau ieithyddol i'w galluogi i ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Canlyniad	Gweler Ystadegau Staffio Tabl 8. Yn y mwyafrif o'r ysgolion academaidd, mae trwch y staff sy'n siarad Cymraeg hefyd yn dysgu drwy'r Gymraeg.
Sylwadau	Fel y llynedd, mae'r canlyniad yma yn galonogol gan ei fod yn golygu bod modd cynnal ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

[6] At bwrpas yr Adroddiad hwn, cymharwyd nifer y siaradwyr Cymraeg fesul ysgol gyda'r nifer o staff sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn hytrach na'r nifer sydd wedi nodi eu bod yn gallu dysgu drwy'r Gymraeg ar system Adnoddau Dynol).

d. 3ydd PARTI – GWASANAETHAU AR GYTUNDEB

BLAENORIAETH	Sicrhau bod gofynion y Cynllun Iaith yn cael eu cynnwys mewn cytundebau trydydd parti.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y cytundebau a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith.
Targed	Monitro 3 chytundeb y flwyddyn.
Canlyniad	**Cytundeb 1: Office 365** Ar 1 Awst 2013 arwyddwyd cytundeb rhwng y Brifysgol a Microsoft i ddarparu gwasanaeth Office 365. Dewiswyd y system hon gan ei bod yn gallu cynnig opsiynau e-bost a chalendr yn Gymraeg. Mewn cyfarfod gyda Microsoft, derbyniodd y Brifysgol sicrhad y byddai mwy o opsiynau Cymraeg yn cael eu datblygu ar gyfer Office 365. Hefyd, bu i'r Brifysgol lobïo Microsoft i ddatblygu gwell cymorth yn y Gymraeg ar gyfer systemau Office i'r Mac. **Cytundeb 2: Peirannau argraffu / llungopio SHARP** Ar 1 Chwefror arwyddwyd cytundeb rhwng y Brifysgol a SHARP i ddarparu peirannau argraffu/llungopïo wrth i'r Brifysgol symud i gyfundrefn lle mae gwaith argraffu a chopïo yn cael ei reoli yn ganolog. Mae'r cytundeb hwn wedi golygu bod SHARP (gyda chymorth Canolfan Bedwyr) yn sicrhau bod popeth y mae defnyddwyr y peiriannau yn ei weld ar gael yn ddwyieithog. **Cytundeb 3: System tocynnau Pontio** Yn ystod 2012/13 cynhaliwyd proses dendro ar gyfer cyflenwi system docynnau ar gyfer gweithgareddau Pontio. Roedd y gallu i gynnig gwasanaeth dwyieithog yn ganolog i'r broses hon - h.y. bod y broses o archebu'r tocynnau yn ddwyieithog ac yna'r hyn oedd wedi ei argraffu ar y tocynnau hefyd yn ddwyieithog. Mae'r cwmni a ennillodd y cytundeb yn gallu darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Yng nghyswllt cytundebau 3ydd parti, mae'n werth nodi bod y Brifysgol yn ystod 2012/13 wedi datblygu dogfen ymgynghorol ar gyfer yr Adran Ystadau ar ddyfarnu cytundebau 3ydd parti yn unol â'r Cynllun Iaith ac wedi diwygio dogfen ymgynghorol ar dendro mewn perthynas â'r Cynllun Iaith ar gyfer y Swyddfa Gyllid.

Sylwadau	Mae'r tri phrosiect pwysig a ddisgrifir uchod yn dangos fel y mae sylw priodol yn cael ei roi i ofynion y Cynllun Iaith wrth sefydlu cytundebau â 3ydd parti.

dd. CWYNION

BLAENORIAETH	Sicrhau bod y brifysgol yn ymateb i weithred neu ymddygiad sy'n tanseilio egwyddorion y Cynllun Iaith.
Dangosydd Perfformiad	Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a chanran y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau'r sefydliad.
Targed	Cofnodi pob cwyn a gaiff ei derbyn. Ymchwilio i'r cwynion hynny sy'n awgrymu bod diffyg dealltwriaeth o'r Cynllun a / neu fethiant cyson i'w weithredu'n gywir.
Canlyniad	Gweler rhestr y cwynion a dderbyniwyd ar ddiwedd yr adroddiad. Derbyniwyd 7 o gwynion am weithrediad y Cynllun Iaith (derbyniwyd 9 o gwynion yn 2011/12) ac ymdrinwyd â 100% ohonynt yn unol â safonau'r sefydliad.
Sylwadau	Mae systemau cadarn yn eu lle er mwyn delio â chwynion.

ADRAN 2

Datblygu ethos Cymraeg y Brifysgol gan weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn ei holl weithgareddau a chan feithrin ysbryd o gytgord a chyd-gynhaliaeth rhwng y diwylliannau

PRIF FFRYDIO'R GYMRAEG

BLAENORIAETH	Prif ffrydio'r Gymraeg i holl weinyddiaeth y brifysgol a datblygu mentrau newydd i hybu defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff / myfyrwyr.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y polisïau a mentrau newydd a oedd yn destun asesiad ieithyddol.
Targed	Monitro a gafodd materion ieithyddol eu hystyried wrth i bolisïau a mentrau newydd gael eu datblygu. Monitro 3 polisi newydd y flwyddyn; paratoi a / neu weithredu'n llawn dau gynllun newydd y flwyddyn sydd yn annog neu gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
Canlyniad	Yn 2012/13, paratowyd a gweithredwyd nifer o gynlluniau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad ac roedd y Gymraeg yn parhau yn ystyriaeth o bwys wrth lunio ac adolygu polisïau a strategaethau. Dyma enghreifftiau o gynlluniau o'r fath a gyflwynwyd yn 2012/13: **Cynllun Iaith diwygiedig** Ar 7 Mai 2013 lansiwyd Cynllun Iaith diwygedig Prifysgol Bangor. Lansiwyd y Cynllun yn swyddogol gan yr Is-ganghellor a mynychwyd y digwyddiad gan tua 100 o aelodau staff. Fel y nodir isod, i gyd-fynd â'r lansiad hwn cynhaliwyd nifer o sesiynau ymwybyddiaeth iaith i godi proffil y Cynllun diwygedig. Fe baratowyd hefyd fatiau llygoden pwrpasol sydd yn arddangos canllawiau gohebu dwyieithog. Mae'r matiau hyn wedi'u dosbarthu'n eang ac

	yn cael eu rhannu yn ystod sesiynau cynefino misol. **Cymorth Cymraeg** Rhwng Hydref 2012 ac Ebrill 2013 cynhaliwyd dwy gyfres o weithdai i gyd-fynd â'r wefan Cymorth Cymraeg. Teitlau'r gweithdai hyn oedd: Cymraeg ar y cyfrifiadur, Paratoi Deunydd Dwyieithog 1 a 2, Cymraeg Naturiol, Ysgrifennu'n ffurfiol/anffurfiol, Trydar yn Gymraeg. Mynychwyd y gweithdai gan 44 o staff a hynny o 21 o adrannau/ysgolion gwahanol. Roedd y gweithdai hyn yn targedu siaradwyr Cymraeg rhugl yn bennaf, gyda golwg ar gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. **Cynllun Peilot Staff Clerigol** Fel gogwydd arall ar ymdrech y Brifysgol i gynyddu hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle, cynhaliwyd prosiect peilot gyda staff clerigol Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Amcan y cynllun oedd creu rhaglen wybodaeth-a-dysgu benodol i staff clerigol y Brifysgol gyda'r bwriad o gynyddu lefelau hyder a gallu yn y Gymraeg. Aseswyd lefelau hyder staff clerigol yn y Gymraeg cyn ac ar ôl iddynt fynychu'r gweithdai Cymorth Cymraeg a restrir uchod. Ar sail y wybodaeth yn yr holiaduron, lluniwyd argymhellion ar sut i gefnogi staff clerigol i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. **Ap Geiriaduron** Y mis Hydref 2012 lansiodd Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr Ap Geiriaduron sydd ar gael i'r iPhone, iPad ac Android. Mae'r dechnoleg hon yn golygu bod geiriadur Cymraeg/Saesneg ar gael unrhyw, unrhyw amser ac mae'n sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fanteisio ar a ffynnu drwy dechnoleg fodern. Patrick Robertson ddatblygodd yr Ap ac ariannwyd ei swydd gan gynllun lleoliadau gwaith Go Wales. Mae'r bartneriaeth rhwng adrannau Prifysgol Bangor a Go Wales wedi golygu bod nifer o fyfyrwyr wedi manteisio ar brofiadau gwaith cyfrwng Cymraeg ac wedi cyfrannu at y gwaith o hyrwyddo'r iaith mewn amryfal ffyrdd.

Ffeiliau Llofnod Electronig

Wrth i'r Brifysgol ledaenu'r defnydd o Office 365 a'r system e-bost newydd, fe ddatblygwyd templed electronig newydd ar gyfer ffeiliau llofnod staff. Wrth lenwi'r templed, mae'n rhaid i staff ddarparu teitl eu swydd a'u hysgol/adran yn ddwyieithog. Mae hyn yn enghraifft o'r Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i hyrwyddo'r cynllun iaith.

Sefydlu Canolfannau Newydd

Sefydlodd y Brifysgol ddwy ganolfan newydd yn 2013 ac mae'r pwyslais ar benodi siaradwyr Cymraeg fel aelodau creiddiol o'r canolfannau yn dangos ymrwymiad y sefydliad i brif-ffrydio'r iaith i'w stragethau. Penodwyd Cynghorydd Astudio sy'n rhugl yn y Gymraeg yn y *Ganolfan Sgiliau Astudio* newydd. Mae'r *Ganolfan Ehangu Mynediad* newydd yn cael ei harwain gan aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg ac mae dau aelod arall o staff sy'n rhugl eu Cymraeg yn cefnogi gwaith y Ganolfan.

Pontio

Mae canolfan Pontio wedi gwneud cyfraniad sylweddol iawn i fywyd cyfrwng Cymraeg yr ardal yn 2012/13. Mae chwech o benodiadau llawn amser newydd wedi'u gwneud yn y ganolfan yn y cyfnod hwn ac mae'r chwe unigolyn a benodwyd yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae holl aelodau Bwrdd Ymgynghorol y Celfyddydau Pontio yn siarad Cymraeg ac felly mae trafodaethau'r grŵp yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Mae'r pwyslais hwn ar yr iaith yn ymestyn wedyn i holl ethos prosiectau diwylliannol y ganolfan. Ar gyfer gweithgareddau Project Blas a phrosiect Corneli Cudd, er enghraifft, sicrhawyd bod cydlynwyr a thiwtoriaid y prosiectau yn gallu siarad Cymraeg. Ar gyfer agoriad y ganolfan yn 2014, mae Pontio yn rhaglennu cynhyrchiad arbennig fel sioe agoriadol: addasiad llwyfan gan Gareth Miles o nofel eiconig T. Rowland Hughes, *Chwalfa*. Mae hwn yn gynhyrchiad gan y Theatr Genedlathol mewn cydweithrediad â Pontio a Theatr y Fran Wen. Mae hyn yn dangos yn glir bod y Brifysgol yn sicrhau bod y Ganolfan yn ei hanfod yn Gymraeg a Chymreig. Mae rhai o staff Pontio hefyd yn cyfrannu ychydig at fodiwlau yn yr Ysgol Cerddoriaeth. Mae'r ymwneud hwn â dysgu myfyrwyr wedi arwain at fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn gwirfoddoli mewn digwyddiadau gan Pontio. Mae Pontio yn aelod o rwydwaith o ganolfannau celfyddydol o fewn Prifysgolion. Lluniwyd memorandwm o ddealltwriaeth ar gyfer y rhwydwaith hwn a thrwy ddylanwad staff Pontio, sicrhawyd bod y memorandwm hwn yn cael ei lunio'n ddwyieithog. Mae'r ymrwymiad hwn i hybu'r Gymraeg trwy gytundebau a

	datblygu ethos cyfrwng Cymraeg yn ymestyn i'r gwaith ar safle'r adeilad hefyd. Miller Contstuction Ltd yw prif gontractwyr y cynllun Pontio. Maen nhw wedi rhoi cyfrifoldeb ymwenud â'r gymuned i Swyddog Cysylltu â'r Gymuned (sef Nia Parry) ac mae rhan sylweddol o'r swydd hon yn ymwneud â hybu dwyieithrwydd y prosiect. Yn y cyd-destun hwn, hyd yn hyn trefnwyd sesiynau blasu ar gyfer gweithwyr safle er mwyn iddynt ddechrau dysgu'r Gymraeg ac mae'r gweithwyr safle sydd yn rhugl (neu sydd â rhywfaint o Gymraeg) yn gwisgo bathodynnau oren 'siarad Cymraeg'. Darlledwyd eitem ar waith Miller â'r Gymraeg ar y rhaglen i ddysgwyr 'Hwb' ar S4C. **Cynaliadwyedd** Fel yr adroddwyd y llynedd, mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o agenda cynaliadwyedd y Brifysgol ac mae Y Sefydliad Cymreig dros Adnoddau Naturiol (WINR) a Rhwydwaith WISE rhwng Prifysgolion Bangor, Aberystwyth ac Abertawe yn arwain yn y maes hwn. Mae'r gweithgaredd a restrir yma yn enghreifftiau o waith arloesol yn y maes: *Cynhadledd 'Cynaliadwyedd a'r Iaith Gymraeg'* Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus iawn ym Mhrifysgol Bangor gyda dros 70 yn mynychu. <http://www.bangor.ac.uk/sustainability/news/datganiad_i-r_wasg-cynaliadwyedd_a-r_gymraeg.pdf> *Prawfleichyd busnes cynaliadwy* Datblygwyd y Prawflechyd Busnes Cynaliadwy ymhellach yn 2012/13. Un o brif nodweddion y Prawflechyd (holiadur arloesol, byr dwyieithog ar y we) yw darganfod arferion y busnes gyda'r iaith Gymraeg ac yna mae tîm o arbenigwyr yn cynnig gwelliannau y gall busnesau eu gwneud i gynyddu'u defnydd o'r Gymraeg ac maent yn cynorthwyo i roi'r gwelliannau ar waith. *Ap dwyieithog 'Taranu gyda'r Troli'* Yn y Babell Wyddoniaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol, cafodd ymwelwyr gyfle i ddefnyddio 'ap' newydd a ddatblygwyd ar y cyd rhwng yr Ysgol Seicoleg a chwmni TG. Bwriad yr 'ap' yw newid arferion bwyta pobl wrth iddynt fynd o gwmpas archfarchnad rithwir yn dewis bwydydd iach. *Annog glas fyfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg* Wrth hyrwyddo nod y Brifysgol o 'Ddod â Chynaliadwyedd yn Fyw' yn Ffair y Glas, roedd tîm PirfBlaned WINR hefyd yn dosbarthu taflenni termau a brawddegau Cymraeg i fyfyrwyr i gyflwyno a rhoi blas iddynt o'r iaith, a hynny gan fod y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael ei ystyried gan y Brifysgol fel rhan hollbwysig o Gynaliadwyedd.

Sylwadau	Mae'r ystod o weithgareddau sydd wedi'u hamlinellu uchod yn dangos yn glir fod Prifysgol Bangor yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg a bod yr iaith wedi'i phrif-ffrydio i weithgareddau'r Brifysgol.

HYFFORDDIANT CYMRAEG YN Y GWEITHLE (a)

BLAENORIAETH	Datblygu gallu staff presennol y sefydliad i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig staff sydd mewn cyswllt cyson â'r cyhoedd.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff gweinyddol sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle fesul adran / ysgol.
Targed	Cynnig o leiaf dau gwrs 'Cymraeg yn y gweithle' y flwyddyn sydd wedi'u teilwra i anghenion grwpiau penodol o staff.
Canlyniad	**Cyrsiau ail iaith wythnosol i staff mewn adrannau / ysgolion** Blwyddyn 2 — 1.5 awr yr wythnos — Maes Glas — 4 staff — 2 reolwr, 2 gweinyddol Blwyddyn 2 — 1.5 awr yr wythnos — Uwch Reolwyr — 4 staff Blwyddyn 1 — 1 awr yr wythnos — Darlithwyr/Rheolwyr — 6 staff Blwyddyn 2 — 1 awr yr wythnos — Darlithwyr/Rheolwyr — 6 staff Blwyddyn 2 — 1 awr yr wythnos — Llyfrgell (2 safle) — 5 staff — Gweinyddol Blwyddyn 2 — 0.5 awr yr wythnos — Dyniaethau — 5 staff — Gweinyddol **Sesiynau ail iaith un i un 2-3 gwaith y mis i ddatblygu sgiliau penodol ar lefel benodol:** Canolfan Rheolaeth (derbynfa) — 3 staff Uwch Reolwyr (cyfarfodydd) — 2 staff Gwasanaethau Myfyrwyr — 6 staff **Cyrsiau ail iaith penodol i grwpiau o staff:** Cymraeg mewn cyfarfodydd — 12 staff Ysgrifennu yn y Gymraeg — 9 staff

	Cyrsiau Gloywi Mynychodd 4 o staff gweinyddol ddosbarthiadau gloywi yn ystod y flwyddyn. **Cymorth Cymraeg** Fel y nodwyd uchod, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi amser cinio o dan frand Cymorth Cymraeg a fu'n boblogaidd ymhlith staff, gyda 44 yn mynychu'r gweithdai. **Datblygiadau eraill i'w nodi** • Cynhaliwyd ymweliadau â staff Gwasanaethau Myfyrwyr yn unigol i drafod cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gwaith • Cyfarfu'r Tiwtor Cymraeg i Staff â'r 19 aelod o staff sydd â chynllun datblygu fel rhan o'u cytundeb gwaith i drafod cynnydd ac i adolygu a diweddaru'r cynlluniau. • Mae'r Is-Ganghellor wedi cyrraedd lefel Meistroli yn ei 3edd flwyddyn ers cael ei benodi
Sylwadau	Mae'r gweithgareddau uchod yn dangos yn glir bod y Brifysgol yn cynnig cyfleoedd amrywiol i staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg fel eu bod yn gallu defnyddio'r iaith yn y gwaith. Mae'r ystadegau hefyd yn dangos bod staff yn barod iawn i ymgymryd â'r cyfleodd hyn gan bod 73 o staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle a amlinellir uchod.

HYFFORDDIANT CYMRAEG YN Y GWEITHLE (b)

BLAENORIAETH	Datblygu gallu staff presennol y sefydliad i ddefnyddio'r Gymraeg.
Dangosydd Perfformiad	Nifer a chanran y staff academaidd sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg fesul adran / ysgol.
Targed	Sicrhau bod y Brifysgol yn rhoi cyfle i staff gynnal a datblygu eu sgiliau ieithyddol i'w galluogi i ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Canlyniad	Mae rhai academyddion wedi mynychu'r cyrsiau ail iaith a nodir yn y tabl blaenorol ac hefyd wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg yn y gymuned. Yn ychwanegol cynhaliwyd y dosbarthiadau isod yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion: Blwyddyn 1 1 awr yr wythnos Ysgol Gwyddorau Eigion 7 staff Academaidd Blwyddyn 2 1 awr yr wythnos Ysgol Gwyddorau Eigion 4 staff Academaidd **Glowyi** Mynychodd 5 o staff a myfyrwyr ôl-radd gwrs gloywi wythnosol rhwng Medi a Rhagfyr 2012.
Sylwadau	Mae'r ddarpariaeth gloywi yn gwneud cyfraniad pwysig i'r broses o sicrhau bod staff academaidd yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith dysgu. Er mai enghreifftiau eithriadol yw staff academaidd di-Gymraeg sydd yn datblygu'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg i ddarlithio (gweler yr adroddiad ar Dr Jonathan Ervine y llynedd), mae codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r gallu i ddefnyddio'r iaith mewn rhai cyd-destunau yn rhywbeth sydd yn digwydd fwyfwy trwy ddosbarthiadau ffurfiol fel y rhai a nodir uchod yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion a thrwy anogaeth gan gyd-weithwyr. Mae staff yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, er enghraifft, yn adrodd ar y cynnydd y mae nifer o'u cydweithwyr di Gymraeg yn yr Ysgol wedi'i wneud wrth ddysgu'r iaith. Bellach, gwelir defnydd cynyddol o'r iaith mewn sgyrsiau a gohebiaeth gyda'r staff hyn. Mae rhai wedi cael llwyddiant mewn arholiadau, ond y peth pwysicaf yw'r defnydd naturiol o'r iaith, yn llafar ac yn ysgrifenedig, mewn cyd-destunau a fyddai wedi bod yn uniaith Saesneg tan yn ddiweddar iawn.

HYFFORDDIANT IEITHYDDOL EHANGACH

BLAENORIAETH	Cynnal cyfleoedd i staff ddatblygu'i sgiliau iaith ar gyrsiau cymunedol ac mewn sesiynau anffurfiol.
Dangosydd Perfformiad	Nifer y staff sy'n mynychu gwersi Cymraeg sydd heb gael eu teilwra'n benodol i anghenion eu swydd.
Targed	Sicrhau cyfle i staff gofrestru ar wersi Cymraeg.
Canlyniad	**Staff a fynychodd gyrsiau Cymraeg i Oedolion Medi 2012-Mehefin 2013** Cyrsiau cymunedol 1-2 sesiwn yr wythnos: 130 Cymraeg yn y gweithle (Medi 2012): 20 Ysgol Galan Ionawr 2013: 26 Ysgol Basg Mawrth 2013: 2 Ysgol Haf 2013 21
Sylwadau	Mae nifer uchel o staff (199) wedi mynychu cyrsiau Cymraeg i Oedolion. Yn ogystal, cynhelir sesiynau sgwrsio amser cinio i staff ac mae Clwb Darllen Cymraeg y Brifysgol yn annog dysgwyr i ymuno yn eu cyfarfodydd. Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Bangor ac mae'r Ganolfan eleni eto wedi gwneud cyfraniad allweddol tuag at wneud y Gymraeg yn hygyrch i bobl yr ardal. Gellir nodi, er enghraifft, fod bron i 600 o ddigwyddiadau anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg i Oedolion yn y rhanbarth wedi'u cynnal a bod dros 3500 o ddysgwyr wedi mynychu'r gweithgareddau hyn. Gwelwyd cynnydd o 4.6% yn nifer y cyrsiau dwys a gafodd eu cynnal ac mae £10,000 wedi'u neilltuo fel bwrsari i alluogi pobl i fynychu cyrsiau dwys iawn. Bu i 90% o ddysgwyr gwblhau eu cyrsiau (y canran uchaf yn genedlaethol).

CODI YMWYBYDDIAETH O'R CYNLLUN IAITH

BLAENORIAETH	Cynyddu ymwybyddiaeth o gynllun iaith y brifysgol ymhlith staff gan bwysleisio pam y dylid ei weithredu a sut i'w weithredu.
Dangosydd Perfformiad	Nifer y staff sydd wedi derbyn cyflwyniad i'r Cynllun Iaith.
Targed	Cynnal y cyfleoedd cyfredol i gyflwyno'r Cynllun Iaith i staff (e.e. cynefino misol) a datblygu un cyfle ychwanegol y flwyddyn i wneud hynny – un ai trwy gwrs ymwybyddiaeth iaith neu trwy hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.
Canlyniad	**Cynefino** Mae tua 150 o staff wedi derbyn cyflwyniad i'r Cynllun Iaith drwy'r sesiynau cynefino i staff newydd (daeth y staff hyn o tua 45 o wahanol adrannau / ysgolion ac unedau ymchwil). **Sesiynau ymwybyddiaeth iaith cyffredinol yn dilyn lansio'r Cynllun Iaith diwygiedig** Rhwng Mehefin a Medi 2013, cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth yn dilyn lansio'r Cynllun Iaith diwygiedig ym mis Mai. Cynhaliwyd y sesiynau yma drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Saesneg a hynny mewn nifer o leoliadau ar draws y Brifysgol (gan gynnwys campws Wrecsam). Yn ogystal cynhaliwyd sesiynau penodol ar gyfer staff yr Ysgol Seicoleg ac uned ymchwil IMSCAR. Erbyn diwedd y sesiynau hyn, roedd yn agos at 200 o staff wedi derbyn cyflwyniad i'r Cynllun Iaith diwygedig (mae hyn heb gynnwys yr aelodau newydd o staff sy'n derbyn cyflwyniad cryno i'r cynllun fel rhan o'r rhaglen gynefino fisol).
Sylwadau	Mae'r Brifysgol yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith. Roedd y sesiynau a gynhaliwyd yn sgil lansio'r Cynllun Iaith diwygedig yn rhai gwirfoddol. Mae'r ffaith i bron i 200 o staff fynychu'r sesiynau hyn yn dangos yn glir bod diddordeb yn y Gymraeg a gweithrediad y Cynllun Iaith ar draws ysgolion ac adrannau'r Brifysgol.

ADRAN 3

Hyrwyddo, datblygu ac ymestyn gwaith cyfrwng Cymraeg y Brifysgol gan amcanu at wireddu hawl myfyrwyr i dderbyn addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg a / neu'r Saesneg

Maes Datblygu	Manylion	Sylwadau
Nifer y myfyrwyr (CALL) cyfrwng Cymraeg	**667.1** (575.4 yn 2011/12 a 603 yn 2010/11) * *Gweler atodiad B tabl CY4* *Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd nifer siaradwyr Cymraeg rhugl ymhlith myfyrwyr i **1429** o 1576 yn 2011/12 a 1795 yn 2010/11. Gweler atodiad B tabl CY1* *Mae atodiad B tabl CY3 yn dangos fod 1337 yn astudio rhyw gyfgran o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.*	Yn dilyn y gostyngiad o 27.6 a gofnodwyd yn adroddiad 2011/12, mae'r cynnydd sylweddol iawn o 92 a gafwyd yn 2012/13 yn adfer y patrwm o dwf a fu cyn hynny. Yn wir, ers cyflwyno'r dull presennol o adrodd ar ystadegau cyfrwng Cymraeg yn 2000/1, dyma'r nifer uchaf o fyfyrwyr (CALl) cyfrwng Cymraeg y mae'r Brifysgol wedi'i gofnodi. O osod y cynnydd hwnnw yng nghyd-destun y gostyngiad a gafwyd yn niferoedd myfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl, y mae maint y cynnydd yn drawiadol. Yn ogystal ag adlewyrchu'r buddsoddiad a gafwyd mewn staffio (yn bennaf drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol), mae hefyd yn tystio i'r ymdrechion a wnaed i wireddu

		un arall o nodau strategol y Brifysgol o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, sef cynyddu'r ganran o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n ymgymryd â hi. Gellir olrhain cyfran sylweddol iawn o'r cynnydd i faes Gwyddorau Gofal Iechyd, lle gwelwyd y niferoedd CALl yn codi o 73.1 i 158.6. Er bod adnoddau staffio yn y maes hwn wedi'u cryfhau trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y prif reswm am y cynnydd yn y niferoedd yw'r ffaith fod y Swyddfa Gynllunio a'r ysgol academaidd wedi cydweithio i fireinio eu dulliau o gofnodi a chyfrif y gweithgarwch cyfrwng Cymraeg, gan wneud hynny ar lefel pob un myfyriwr unigol yn yr ysgol. Yn yr un coleg, ac am y drydedd flwyddyn yn olynol, cafwyd cynnydd pwrpasol unwaith eto ym maes Seicoleg. Mae'r patrwm hwn o gynnydd (11.6 > 14.5 > 19.5) yn adlewyrchu'r gwaith cynllunio bwriadus sydd wedi'i wneud i ddatblygu'r ddarpariaeth yn y maes, yn ogystal agymdrechion

		llwyddiannus y tîm i annog myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i ddewis y ddarpariaeth honno. Cafwyd cynnydd arwyddocaol hefyd ym meysydd y Gymraeg, Astudiaethau'r Amgylchedd a Gwyddorau Cymdeithas. Yn achos Gwyddorau Cymdeithas, gellir olrhain y cynnydd i'r ffaith fod y ddarpariaeth mewn Gwaith Cymdeithasol wedi'i hadfer yn llwyddiannus ar lefel Meistr yn ystod 2012/13. Gydag adfer y ddarpariaeth israddedig ym maes Astudiaethau Crefydd ac Athroniaeth yn 2013/14 a chyda rhagor o benodiadau newydd trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y mae'r Brifysgol yn amcanu at gynnal patrwm o gynnydd. Teg nodi, serch hynny, bod penderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru yng nghyswllt ffioedd, ynghyd â phenderfyniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddileu'r premiwm cyfrwng Cymraeg yn creu cyd-destun heriol eithriadol ar gyfer datblygiad addysg uwch

		trwy gyfrwng y Gymraeg.
Cynlluniau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg / dwyieithog	Ym mis Hydref 2012, lansiwyd Ysgol newydd **Athroniaeth a Chrefydd**. Fel y gwelir isod, mae modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cael eu paratoi ar gyfer myfyrwyr cyntaf yr ysgol a fydd yn dechrau ar eu cwrs ym mis Medi 2013.	
Modiwlau Cymraeg / dwyieithog newydd	Dyma fodiwlau a ddilyswyd yn 2012/13. Mae'r rhain yn fodiwlau 20 credyd oni nodir yn wahanol: **Ysgol Athroniaeth a Chrefydd** Moeseg: Agweddau Crefyddol Athroniaeth a/mewn Llenyddiaeth Crefydd, Cenedligrwydd a Rhywioldeb Moeseg Gymhwysol **Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg** Cestyll a Chymdeithas 1000-1500 **Ysgol Cerddoriaeth** Cerddoriaeth David Bowie (10 credyd) Dysgu Canu (10 credyd) Astudio Cerddoriaeth Technoleg Cerdd: Theori ac Ymarfer **Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau** Astudiaeth Achos Sefydliadol Cyfathrebu Digidol Sinema Ewrop Cyn-gynhyrchu'r ffilm fer Cynhyrchu'r ffilm fer **Ysgol Ieithoedd Modern** Y Nofel Almaeneg yn ystod yr 'Ymwahaniad':1946-1989	

	O'r Clasurol i'r Rhamantaidd Hunaniaethau Sbaeneg eu hiaith Patagonia Gyfoes **Ysgol Gwyddorau Cymdeithas** Pŵer, Cyfalaf a Chymdeithas Datganoli Iechyd a Gofal yng Nghymru Yr unigolyn a chymdeithas **Ysgol Busnes** Cyfrifeg Reolaeth ac Ariannol **Ysgol Addysg** Cam-drin Sylweddau mewn Teuluoedd **Ysgol Seicoleg** Dwyieithrwydd iaith Gwybyddiaeth darllen **Ysgol Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth** Geomorffoleg Afonol **Ysgol Gwyddorau Eigion** Prosiect Maes Rhynglanw Bu i'r **Ysgol Gwyddorau Iechyd** roi ystod o ddulliau dysgu ac addysgu ar waith er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyflwyno'r cwricwlwm, megis dysgu ar sail tystiolaeth, grwpiau trafod rhithiol, blog, wiki a panopto. Bu iddynt hefyd gydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn gwella strwythurau a phrosesau ar gyfer mentora myfyrwyr trwy'r Gymraeg ar leoliadau clinigol. Derbyniodd yr Ysgol wobr am y gwaith hwn yng nghynhadledd flynyddol 'Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd'.	
Enghreifftiau o adnoddau i gefnogi dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg	**Gwasanaethau Technoleg** Unwaith eto eleni, bu'r tîm E-ddysgu o fewn Gwasanaethau TG yn	

	hyrwyddo'r dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg: *Cynrychiolydd Technoleg Gwybodaeth ar gyfer pob Coleg* Yn dilyn proses o ad-drefnu Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth penodwyd cynrychiolydd TG ar gyfer pob Coleg yn y Brifysgol er mwyn cryfhau'r berthynas gyda'r Colegau. Penodwyd cynrychiolydd penodol fel person cyswllt ar gyfer materion cyfrwng Cymraeg i ymateb i anghenion ar draws y Colegau. *Windows 7* Diweddarwyd cyfrifiaduron staff, cyfrifiaduron mewn darlithfeydd ynghyd â pheiriannau mewn ystafelloedd cyfrifiadurol o Windows XP i Windows 7 yn ystod y flwyddyn. Mae rhyngwyneb Cymraeg Windows 7 ar gael i unrhyw aelod o staff sy'n dymuno hynny. *Sgyrsiau E-ddysgu Awr Ginio* Cynhaliwyd cyfres o sgyrsiau E-ddysgu ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth drwy gyfrwng y rhwydwaith fideo. Sgyrsiau yw'r rhain sy'n agored i staff a myfyrwyr yn y ddau sefydliad lle trafodir gwahanol ddulliau e-ddysgu. Cafodd un o'r sgyrsiau hyn ei gchyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg gydag offer cyfieithu ar y pryd. *Adnoddau Addysgol Agored* Mae staff Gwasanaethu Technoleg Gwybodaeth yn aelodau o'r Grŵp Adnoddau Addysgol Agored a sefydlwyd o fewn y Brifysgol i drafod sut i fynd ati i greu Adnoddau Addysgol Agored. Mae cynhyrchu adnoddau Cymraeg eu hiaith yn rhan greiddiol o'r trafodaethau hyn. *Prosiect Technolegau Symudol* Derbyniwyd cyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o dan y Cynllun Grantiau Bach i gynnal adolygiad o'r meddalwedd sydd ar gael i'w defnyddio ar ddyfeisiadau technolegol symudol sy'n	

	hyrwyddo dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cychwynnwyd ar y gwaith o brofi pa feddalwedd sy'n cael ei gefnogi gan wahanol dechnolegau. *Y Porth* Bu i aelodau'r Tîm Technoleg Dysgu barhau i gynorthwyo aelodau staff dysgu i osod adnoddau dysgu rhyngweithiol ar Y Porth gan gynnwys gosod clipiau fideo o ddarlithoedd wedi'u recordio a phrofion amlddewis. Bu staff Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth hefyd yn cydweithio â staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Abertawe i greu cysylltiad uniongyrchol o Blackboard Bangor i'r Porth heb orfod mewngofnodi ddwywaith. Y gobaith yw y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn dechrau 2014. **Trydar** Yn sgil llwyddiant yr Athro Emeritws Gareth Roberts yn defnyddio llwyfan *Twitter* i hybu a phoblogeiddio mathemateg, dan anogaeth tiwtoriaid yn yr Ysgol Addysg ,mae myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant athrawon yn gwneud defnydd o bosau mathemategol #posydydd wrth eu gwaith yn y coleg ac yn ystod eu cyfnodau profiad ysgol. **Canolfan Sgiliau Astudio** Er mwyn ategu a chefnogi darpariaeth pwnc-benodol cyfrwng Cymraeg o fewn y disgyblaethau, mae staff o fewn y Ganolfan wedi bod yn cyd-ddatblygu deunyddiau gyda darlithwyr ar gyfer, ac wedi bod yn dysgu ar, y rhaglenni canlynol: *Traethawd Hir*: *Canllawiau Ymarferol ar Strwythur a Fframwaith* (modiwl Ysgol Gwyddorau Cymdeithas SCU 301) *Astudio Cerddoriaeth* (modiwl Ysgol Cerddoriaeth WXC1001 a WXC1002);	

	Cyflwyniad i Astudiaethau'r Cyfryngau (modiwl Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau UXC 1056). **Gofod Dysgu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol** 2012/13 oedd y flwyddyn gyntaf i ofod dysgu'r CCC gael ei ddefnyddio - sef ystafell bwrpasol ar gyfer dysgu modiwlau ar y cyd gyda sefydliadau eraill. Cafodd 11 o fodiwlau eu dysgu yno yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys modiwlau a oedd yn cael eu dysgu o Fangor a modiwlau o sefydliadau eraill yr oedd myfyrwyr Bangor wedi cofrestru arnynt. **Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol** Darparwyd cefnogaeth ddysgu a chefnogaeth ymarferol i fyfyrwyr ar gyfer sefyll Tystysgrif Sgiliau Iaith y CCC. Dewisodd9 myfyriwr sefyll yr arholiad yn 2012/13. Parhawyd i ddarparu cefnogaeth gloywi iaith gyffredinol i fyfyrwyr hefyd drwy gydol y flwyddyn. **Cyfieithu** Parhawyd i ddarparu cefnogaeth gyfieithu ar y pryd ac ysgrifenedig i staff a myfyrwyr ac mae'r galw ar y gwasanaeth yn parhau i gynyddu. Yn 2012/13, er enghraifft, darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn 30 o gyflwyniadau gan fyfyrwyr ac mewn 7 o ddarlithoedd / gweithdai i fyfyrwyr. **Cyhoeddiadau** Yn 2012/13 roedd cyhoeddiadau marchnata cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys Prosbectws Ôl-radd 2013, llyfryn ar gyfer Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Dyddiadur Wythnos Groeso i Ôl-raddedigion, llyfryn Chwaraeon ym Mangor a thaflen ar gyfer Gwyddorau Gofal Iechyd.	

	Mae'r Adran Recriwtio Myfyrwyr hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu cynnwys cyfrwng Cymraeg ar gyfer darpar-fyfyrwyr ac ymgeiswyr ar wefan y Brifysgol. Ymhlith y cynnwys newydd a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn roedd tudalennau gwe newydd ar gyfer rhieni, a gwefan newydd ar gyfer myfyrwyr hŷn. Bu Tîm y We hefyd yn gweithio gyda myfyrwyr presennol i ddatblygu ac ehangu'r cynnwys. Er enghraifft, bu i fyfyriwr o'r Ysgol Astudiaethau Creadigol dreulio cyfnod o brofiad gwaith yn yr adran a bu i fyfyriwr arall o'r un ysgol gae ei gomisiynu i baratoi cynnwys fideos ynglŷn â chlybiau a chymdeithasu myfyrwyr a'r Wythnos Groeso.	
Enghreifftiau o weithgareddau y tu allan i'r dysgu ffurfiol a ddatblygwyd er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg	**Gweithgareddau gyda darpar fyfyrwyr** Cynhaliodd y Brifysgol daith adolgyu cyfrwng Cymraeg unwaith eto eleni gan ymweld ag Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam ac Ysgol Bro Pedr, Llanberpontsteffan. Roedd darlithwyr o Hanes, Cymraeg, Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, Ieithoedd Modern, Seicoleg a Busnes ar y daith. Roedd y teithiau yma wedi'u hanelu'n benodol at ardaloedd y Gogledd-Ddwyrain a'r De-Orllewin. Cynhaliwyd diwrnod Gwybodaeth a Chyngor i fyfyrwyr aeddfed (dros 21 oed) ac roedd hwn yn ddigwyddiad dwyieithog. Er mwyn cael blas ar fywyd Prifysgol, cafodd disbyglion ysgol blwyddyn 12 gyfle i gysgodi myfyrwyr o'r Ysgol Seicoleg a'r Ysgol Addysg. Roedd disgyblion a myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhan o'r digwyddiad hwn. Bu cwrs preswyl yng Nghlanllyn dan arweiniad Ysgol y Gymraeg	

	yn llwyddiant mawr eto, gyda 180 o fyfyrwyr (iaith gyntaf ac ail-iaith) yn mynychu. Bu aelodau o staff Ysgol Asutiaethau Creadigol a'r Cyfryngau hefyd yn rhan o'r cwrs hwn gan gynorthwyo gydag agweddau ar astudiaethau ffilm. Bu i'r ysgol hefyd groesawu disgyblion lleol ar gyfer cyrsiau adolygu ac mae'r ysgol yn rhan o addysg ffilm cyfrwng Cymraeg a drefnir gan Clwb Ffilm Cymru. Roedd gweithagreddau eraill ar gyfer disbygion ysgol yn cynnwys ymweliad gan yr Ysgol Busnes i Ysgol Llanrug a darpariaeth Y Gornel Gymraeg yn ystod diwrnodau agored gan yr Ysgol Seicoleg. Cynigiodd yr ysgol hefyd wythnos o brofiad gwaith ym mis Gorffennaf ar gyfer disgyblion ysgol. **Cyfraniadau gan staff y Brifysgol i fywyd diwylliannol a deallusol Cymru** Bu staff yr Ysgol Gymraeg yn gwneud cyfraniad pwysig i hybu llenyddiaeth y tu hwnt i furiau'r Brifysgol. Fel enghraifft o hyn, bu i'r Dr Angharad Price drafod llenyddiaeth Gyrmaeg gydag awduron rhynglwadol yn Nhŷy Cyfieithu Cymru, traddodi darlith gyhoeddus yng Ngŵyl Arall, Caernarfon ac yn y Bablell Lên yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a chyflwyno sgyrsiau i gymdeithasau llenyddol y Felinheli, Bangor, Bethel, Blaenau Ffestiniog a Thywyn. Cyfrannodd hefyd bump o weithiau i raglenni ar Radio Cymru. Bu i Dr Llion Jones a'r Athro Emeritws Gareth Roberts wneud defnydd arloesol o *Twitter*. Enillodd *Trydar mewn Trawiadau* gan Llion Jones wobr Barn y Bobl yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2013, prawf sicr bod ei drydar cynganeddol wedi dal dychymyg y cyhoedd. Yn ystod 2013 mae'r Athro Emeritws	

	Gareth Ffowc Roberts wedi parhau i ddefnyddio *Twitter* i hybu a phoblogeiddio mathemateg. Dan #posydydd mae'n trydar posau mathemategol yn ddyddiol ac yn monitro'r defnydd a wneir o'r adnodd. Mae nifer o staff wedi gwneud cyfraniadau i raglenni teledu a radio yn y Gymraeg a thrwy hynny wedi cyfrannu at drafodaeth ddeallusol yn yr iaith a hefyd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwaith sydd yn mynd rhagddo yn y Brifysgol. Bu i'r Dr Gwawr Ifan o'r Ysgol Cerddoriaeth, er enghraifft, gyfrannu at sgyrsiau gyda Dylan Iorwerth a Beti George am gerddoriaeth a dementia. Cyfrannodd Dr Manon Jones o'r Ysgol Seicoleg at raglen gelfyddydol *Pethe* drwy drafod perfformiad o 'Cerebellium'. Ar 25 Mawrth darlledwyd eitem ar *Pethe* i ddathlu canmlwyddyddiant geni R. S. Thomas. Roedd y rhaglen yn cynnwys sgwrs â'r bardd a'r academydd Dr Jason Walford Davies am y casgliad newydd o dros gant o gerddi R. S. Thomas y mae ef a'r Athro Tony Brown wedi'u rhoi at ei gilydd mewn cyfrol o'r enw *Uncollected Poems*. O ran materion yn ymwneud â chymdeithas a'r economi, mae'r Dr Myfanwy Davies wedi cyfranu at drafodaethau am bolisi cymdeithasol ar raglenni materion cyfoes BBC Radio Cymru ac i'r rhaglen newyddion ar S4C tra bod Dr Rhys ap Gwilym o'r Ysgol Busnes wedi cyfrannu nifer o weithiau i eitemau yn ymwneud â'r economi ar Newyddion BBC/S4C. Mae nifer o staff y Brifysgol yn aelodau o gymdeithasau neu bwyllgorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd o'r Gymraeg ym mywyd Cymru. Mae Gwenan Prysor, Cyfarwyddwr y cwrs Gwaith Cymdeithasol, er enghraifft, yn aelod o Fwrdd Rheoli Menter a Busnes, sydd yn ceisio cynyddu gweithgaredd economaidd	

	siaradwyr Cymraeg led-led Cymru. Mae hi hefyd yn aleod o weithgor 'Urddas ac Iaith' a arweinir gan Cwmni Iaith ac sydd yn edrych ar ddarpariaeth ddwyieithog yn y trydydd sector. Mae'r Dr Eifiona Thomas Lane yn cadeirio Bwrdd Cyfarfwyddwyr Gwynedd Cynaliadwy Cyf, sef mudiad/cwmni sydd yn hybu cynaliadwyedd lleol ac sydd yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. O ran y maes iechyd, mae Gwerfyl Roberts o'r Ysgol Gwyddorau Iechyd yn parhau i fod yn aelod o'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Gyrmadg mewn Gwasanethau Iechyd a Chymdeithasol, mae'n aelod o Grŵp Gweithredu 'Mwy na Geiriau', Fframwaith Strategol y Gymraeg mewn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol ac mae'n aelod o Ffrowm Iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Dr Lowri Ahronson o Ganolfan Bedwyr yn aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg a gadeirir gan Brif Weinidog Cymru.	
Ymchwil	Mae gwaith ymchwil staff academaidd Bangor yn parhau i wneud cyfraniad allweddol i'n dealltwriaeth o fywyd Cymraeg Cymru. O safbwynt yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, cynhaliwyd prosiectau ymchwil amrywiol yn ymwneud â'r gymuned Gymraeg, er enghraifft, prosiect gyda Menter Môn a chanddo'r nod o ddatblygu technoleg ddigidol i hybu twristiaeth ddiwylliannol ac addysgol a phrosiect am siopau llyfrau Cymraeg a'r farchnad ddigidol. Cydweithiodd Dr Gwawr Ifan gyda thîm Pontio i ddatblygu prosiect Codi'r To ym Maesincla/Glan Cegin. Prosiect yw hwn yn seiliedig ar El Sistema, sef dull o gyflwyno cerddoriaeth i blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Y bwriad yw	

	creu tîm ymchwil i fesur effaith y prosiect ar y disgyblion, teuluoedd a'r cymunedau dan sylw, sef ardaloedd yng Nghaernarfon (Sgubor Goch a Maesincla) a Glancegin (Maesgeirchen). Ym maes iechyd, cynhaliodd Gwerfyl Roberts arolwg ymhlith ymchwilwyr clinigol ledled Cymru er mwyn adnabod a blaenoriaethu mesurau iechyd sydd angen eu cyfieithu a'u dilysu'n ieithyddol trwy'r Gymraeg. Cynhaliodd hefyd waith ymchwil ar ymwybyddiaeth iaith gan edrych ar bolisi iechyd Canada, gan arwain at wahoddiad i gyflwyno papur mewn cynhadledd ym Montreal a chyfnodolyn yng Nghanada. Sefydlwyd rhwydweithiau rhyngwladol o ran datblygu gwasanaethau gofal iechyd sy'n ymatebol i anghenion siaradwyr ieithoedd lleiafrifol.	
Staffio	Penodwyd 7 aelod newydd o staff academaidd o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2012/13, yn y meysydd canlynol: • Ieithyddiaeth • Gwyddoaru Cymdeithas • Cerddoriaeth (Iechyd a Lles) • Hanes (Canol Oesoedd) • Ieithoedd Modern (Almaeneg) • Ecoleg a Sŵoleg y Môr • Cyfarwyddwr Gwaith Cymdeiathasol Sicrhawyd nawdd y CCC ar gyfer 5 penodiad newyddd ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14 yn y meysydd canlynol:	

	• Cyfrifeg • Y Gyfraith • Gwyddor Cymdeithas • Seicoleg • Nyrsio	
Ysgoloriaethau PhD y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Ymgymerwyd ag ysgoloriaethau PhD yn y meysydd isod yn 2012/13: • Gwyddorau Cymdeithas • Peirianneg Electronig • Bio-feddygaeth • Amgylchedd a Busnes • Astudiaethau'r Amgylchedd Yn ogystal, dyfarnwyd 2 ysgoloriaeth Lefel M y CCC ac ar lefel is-raddedig, cyfarnwyd 13 o Brif Ysgoloriaethau'r CCC ac 11 o Ysgoloriaethau Cymhelliant. Yn 2012/13, cynigiodd yr Ysgol Seicoleg fwrsariaeth i fyfyrwyr am gwblhau elfennau o'u cwrs Meistr MSc mewn Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol drwy'r Gymraeg a manteisiodd dwy o'r myfyrwyr ar y gefnogaeth ieithyddol sydd ar gael o ran gloywi iaith a sesiynau i godi sgiliau llafar dysgwyr. Mae'r ddwy fyfyrwraig a fanteisiodd ar y cyfle yma bellach wedi cael swyddi yn defnyddio'u harbenigedd, un yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ac un yn Ysgol y Garnedd, Bangor.	
Prosiectau cyfrwng Cymraeg o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Llwyddodd dau brosiect o Fangor i ddennu arian sylweddol o gronfa Grantiau Strategol y CCC, sef prosiect 'Goriad i'r Gorffennol' o dan arweiniad Yr Athro Nancy Edwards a phrosiect Digido, e-gyhoeddi a chorpws electrnoig (DECHE) o dan arweiniad	

	Delyth Prys yn Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr. Dyfranwyd cyllid ar gyfer 6 o brosiectau o gronfa Grantiau Bach y CCC, ar y thêmau isod: • Cwrs Preswyl myfrwyr Nyrsio Cyfrwng Cymraeg • Cyhadledd: Seicoleg yn y Gymraeg • Datlbygu clipiau fideo i'r modiwl Seicoleg Datblygiad • Gwarchod hawlfreinitau cerddoriaeth mewn diwylliant lleiafrifol • Dehongli Cyfraith Tir trwy ddogfennau Ystâd y Penrhyn • Sut y gall technolegau dysgu symudol ehangu profiad myfyrwyr a chyfoethogi'r ddarpariaethAU cyfrwng Cymraeg?	
Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol	Ymhlith y gweithgareddau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol, gellir nodi: integreiddio Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i Wobr Cyflogadwyedd Bangor a datblygu gweithgaredd ymchwil cyfrwng Cymraeg ar lefel Meistr a PhD.	
Gweithgareddau Myfyrwyr	Unwaith eto eleni, bu i fyfyrwyr Bangor gyfrannu'n helaeth at ddigwyddiadau diwylliannol a phrofi cryn lwyddiant. Cipiodd Lois Eifion Jones Fedel Prif Gyfansoddwr yr Urdd, enillodd Rhys Gwynfor ac Osian Huw Williams gystadleuaeth Cân i Gymru a dyfarnwyd Ysgoloriaeth Bryn Terfel i Huw Ynyr. Dangosodd nifer o fyfyrwyr israddedig Ysgol y Gymraeg eu dawn greadigol. Cymerodd Carys Tudor ran amlwg yn Sgript Slam Cymru 2013 yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cymerodd Elis Dafydd ran yn Her 100	

	Cerdd Llenyddiaeth Cymru ar ddiwrnod cenedlaethol barddoniaeth. Enillodd Euros Gwyn Jones y Gadair yn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Eryri a gwahoddwyd Llŷyr Titus Hughes i gyfieithu stori fer gan awdur Albanaidd i'r Gymraeg. Yn yr un modd, eu myfyrwyr ôl-radd. Cymerodd Gruffudd Antur ran yn Her 100 Cerdd Llenyddiaeth Cymru ar ddiwrnod cenedlaethol barddoniaeth. Ar ben y cyfan, bu nifer o aelodau'r Ysgol (yn fyfyrwyr ac yn diwtoriaid) yn brysur yn ailsefydlu'r Gymdeithas Ddrama Gymraeg. Llwyddodd Osian Williams o'r Ysgol Astudiaethau Creadigol i ennill gwobr BAFTA Cymru am ffilm fer a gyfarwyddwyd ganddo yn ystod ei drydedd flwyddyn, sef 'Cân i Emrys'. Mae hyn yn dynodi llwyddiant arbennig ym maes y cyfryngau.	

BLAENORIAETHAU 2012-13

	Maes	Blaenoriaeth	Amserlen	Canlyniad
Blaenoriaeth 1	Cynllun Iaith	Lansio a chodi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith diwygiedig.	Gwanwyn 2013	Cwblhawyd yn llwyddiannus.
Blaenoriaeth 2	Datblygu defnydd o'r Gymraeg	Cynnal gweithdai Cymorth Cymraeg ddwywaith y flwyddyn a datblygu rhaglenni newydd ar gyfer staff clerigol.	Trwy'r flwyddyn	Cwblhawyd yn llwyddiannus.
Blaenoriaeth 3	Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i chwarae arweiniol wrth ychwanegu at ei darpariaeth cyfrwng Gymraeg trwy fuddsoddiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a buddsoddiad o du'r Brifysgol ei hun.	Parhaol	Parhawyd i ddatblygu'r ddarpariaeth mewn amrediad o ddisgyblaethau academaidd.
Blaenoriaeth 4	Pontio	Sicrhau bod y Gymraeg wedi'i phrif-ffrydio i holl weithgareddau Pontio.	Parhaol	Mae cynnydd mawr wedi'i wneud yn y cyd-destun hwn wrth i chwech o aelodau staff rhugl eu Cymraeg gael eu penodi.
Blaenoriaeth 5	Myfyrwyr	Datblygu cynlluniau i annog	Parhaol	Mae cynrychiolaeth o

		myfyrwyr i gymryd rhan weithredol ym mywyd Cymraeg y Brifysgol (e.e. drwy sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar bwyllgorau ffurfiol a thrwy gynyddu aelodaeth yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol).		blith y myfyrwyr wedi'i drefnu.

BLAENORIAETHAU 2013-14

	Maes	Blaenoriaeth	Amserlen
Blaenoriaeth 1	Cynllun Iaith	Cynnal gweithdai ar draws pob rhan o'r campws i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ac edrych ar y strwythurau sy'n cefnogi'r Cynllun. Dechrau edrych ar yr oblygiadau wrth symud o'r Cynllun Iaith tuag at Safonau.	
Blaenoriaeth 2	Datblygu defnydd o'r Gymraeg	Ymestyn y gefnogaeth a gynigir trwy Cymorth Cymraeg. Datblygu cymhwyster sefydliadol 'Cymraeg yn y Gwaith'. Edrych ar botensial sefydlu cynllun mentora ar gyfer datblygu hyder staff i siarad Cymraeg.	
Blaenoriaeth 3	Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Mewn cydweithrediad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd newydd.	
Blaenoriaeth 4	Pontio	Sicrhau bod y Gymraeg yn flaenllaw	

		wrth i'r prosiect symud i'w gartref parhaol yn ystod haf 2014.	
Blaenoriaeth 5	Myfyrwyr	Cynnal dau brosiect yn edrych ar resymau myfyrwyr dros ddewis / beidio â dewis addysgu uwch cyfrwng Cymraeg.	

CWYNION YN YMWNEUD Â'R CYNLLUN IAITH

[1] Derbyniwyd cwyn gan aelod o staff ynghylch arwydd uniaith Saesneg ym mwyty'r Teras.

Canlyniad: Cafwyd cyfarfod â rheolwyr Y Teras ac yn dilyn archwiliad o holl ddeunydd cyhoeddus y bwyty (a Chaffi'r Teras yn ogystal), fe'u hanogwyd i ddefnyddio gwasanaeth 'Cyfieithiad byr dan 50-gair' yr Uned Gyfieithu wrth fynd ati i lunio arwyddion newydd o hyn allan.

[2] Derbyniwyd cwynion gan ddefnyddwyr gwasanaethau'r Llyfrgell ynghylch negeseuon awtomatig uniaith Saesneg a gafodd eu gyrru atynt.

Canlyniad: Ymddengys mai effaith diweddariad electronig i system Y Llyfrgell oedd wrth wraidd y sefyllfa ac a barodd i ddewis iaith unigolyn gael ei ddileu dros dro. Adferwyd y sefyllfa drwy redeg diweddariad arall a manteisiwyd ar y cyfle i ystwytho'r cyfieithiadau gwreiddiol.

[3] Derbyniwyd cwyn gan aelod o staff ynghylch diffyg presenoldeb y Gymraeg yng ngweithredoedd Sefydliad Confucius y Brifysgol.

Canlyniad: Yn dilyn cyfarfod â chyfarwyddwyr Sefydliad Confucius, fe'u hanogwyd i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu wrth fynd ati i lunio fersiynau Cymraeg o brif dudalennau eu gwefan ynghyd ag unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd sy'n cael ei anelu at y cyhoedd yng Nghymru.

[4] Derbyniwyd cwynion gan staff a'r cyhoedd ynghylch safon y Gymraeg ar arwyddion yn Y Ganolfan Rheolaeth.

Canlyniad: Tynnwyd sylw'r Ganolfan at y diffygion hyn ac fe'u hanogwyd i ddefnyddio gwasanaeth prawf-ddarllen yr Uned Gyfieithu wrth lunio posteri a deunyddiau marchnata yn y dyfodol. Yn ogystal, trefnwyd cyfres o gyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolaeth o'r Ganolfan Rheolaeth er mwyn monitro'u defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, sicrhawyd bod pob arwydd parhaol â Chymraeg gwallus arno yn cael ei dynnu ac arwydd newydd yn cael ei osod yn ei le. Gosodwyd yr arwyddion newydd ym mis Ebrill 2013.

[5] Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch arwydd uniaith Saesneg ar lan Llyn Conwy, ardal y mae gan y Brifysgol broject ymchwil ar waith yno.

Canlyniad: Yn dilyn ymchwilio pellach, canfuwyd bod fersiwn Gymraeg yno, yr ochr arall i'r fersiwn Saesneg a bod arwydd arall ar ochr arall y safle wedi'i godi gyda'r Gymraeg yn wynebu'r tu blaen. Adroddwyd hyn wrth y sawl a yrrodd y gŵyn a chynghorwyd yr adran dan sylw i lunio arwyddion

dwyieithog gyda'r Gymraeg uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg o hyn ymlaen fel modd o sicrhau nad oes unrhyw gamddealltwriaeth tebyg yn y dyfodol.

[6] Derbyniwyd cwyn gan aelod o staff achlysurol a dderbyniodd lythyr gan yr Uned Bensiynau yn uniaith Saesneg.

Canlyniad: Cysylltwyd â'r Uned Bensiynau i drafod y mater. Canfuwyd nad oedd bai ar yr Uned Bensiynau, ac mai dewis iaith yr achwynydd oedd wedi'i gofnodi'n anghywir ar system Adnoddau Dynol. Roedd hynny'n deillio o'r ffaith fod y Saesneg yn cael ei nodi fel dewis iaith diofyn yn absenoldeb nodi unrhyw ddewis arall pan fo aelod newydd o staff yn cofrestru eu manylion â'r Brifysgol. Codwyd y mater hwn gerbron swyddog AD yn un o gyfarfodydd PYCI a datryswyd y mater drwy osod y blwch 'dewis iaith' ar y ffurflen gofrestru ar-lein yn flwch 'gorfodol' y mae'n rhaid ei ateb.

[7] Derbyniwyd cwyn gael aelod o staff a dderbyniodd neges uniaith Saesneg oddi wrth Y Gofrestrfa Academaidd.

Canlyniad: Gan mai dyma'r ail flwyddyn yn olynol i gŵyn o'i bath ddod i sylw'r Brifysgol, dygwyd y mater gerbron yr Uwch Gofrestrydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol dros yr adran a anfonodd y neges. Yn dilyn ymchwiliad i'r mater gan yr UGC, canfuwyd mai myfyriwr ar raglen interniaeth oedd yn gyfrifol am anfon y neges uniaith Saesneg. Nid oedd yr unigolyn hwn wedi derbyn hyfforddiant digonol ar bolisïau dwyieithrwydd y Brifysgol fel rhan o'i weithgarwch gynefino. Gyrrwyd nodyn o ymddiheuriad swyddogol at yr achwynydd ac fe sicrhawyd swyddogion Uned y Cynllun Iaith bod y rhaglen hyfforddiant a chynefino ar gyfer myfyrwyr ar leoliadau interniaeth bellach wedi'i diwygio.